

# Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru



Mawrth 2017

## Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'i Ilofnodi

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth, mewn seremoni arbennig ym Maes Awyr Caerdydd, cafodd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei chadarnhau yn ffurfiol gan arweinwyr y deg awdurdod lleol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Thorfaen.

Dros yr 20 mlynedd nesaf, mae Bargen Ddinesig Caerdydd sydd werth £1.2 biliwn yn bwriadu cyflawni twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR); gan greu swyddi, gwella cynhyrchiant, cynyddu gweithgarwch economaidd, datblygu arloesedd, seilwaith digidol a ffisegol a chefnogi busnesau.

Bydd angen i bob un o'r 10 cyngor sy'n rhan o'r fargen wneud cyfraniad cyfalaf cyfunol yn seiliedig ar boblogaeth gymharol, gan ddod i gyfanswm o sy'n cyfateb i £120 miliwn.

Bydd Cabinet Rhanbarthol pob un o'r deg arweinydd awdurdod lleol yn datblygu Cynllun Pontio a fydd yn nodi manylion y gweithgarwch allweddol a gyflawnir. Bydd y cyfnod pontio hefyd yn golygu creu a datblygu tri chorff cyngori i'r Cabinet Rhanbarthol – Partneriaeth Twf Economaidd y CCR, sefydliad cynrychioli busnes ar draws y rhanbarth, a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau. Hefyd, caiff Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol ei sefydlu fel corff cyflenwi.

Byddwn ni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ddatblygiadau'r Fargen Ddinesig a sut y mae'r buddsoddiadau o fudd i'r rhanbarth cyfan, yn rhifynnau'r dyfodol.



## Dwy ran o dair o raglenni cyllid Strwythurol a Buddsoddi Ewropeidd 2014-2020 bellach wedi'i ymrwmo!

Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Cymdeithasol Ewrop (ESF) wedi ymrwmo dros £1.3 biliwn neu 64% o'r cyllid sydd ar gael ganddynt ledled Cymru! Mae gan y ddwy raglen amrywiaeth o weithrediadau erbyn hyn sy'n darparu portffolio cytbwys o ran cymorth i unigolion, busnesau, a chymunedau.

Mae Matthew Hayes, 30, o Bont-y-pŵl wedi bod yn ddi-waith ers ei fod yn 16 oed, ond drwy gael cymorth gan un o'r prosiectau hyn, sef **Pontydd i Waith 2**, mae wedi cael ei swydd gyntaf.

Bu Matthew yn dioddef problemau iechyd meddwl gan gynnwys iselder, gorbryder ac anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd ar hyd ei oes, ac mae wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i waith o ganlyniad.

Ers iddo gysylltu â'r prosiect Pontydd i Waith 2 yn gynharach eleni, mae wedi ymgymryd â chyrsgau hyfforddi ac wedi ennill nifer o gymwysterau, yn ogystal â gwella ei sgiliau cyffredinol a'i dechnegau cyfweiliad.



Hefyd, drwy gynllun 'Dress to Impress' y prosiect, rhoddwyd gwisg iddo ei defnyddio ar gyfer cyfweiliadau am swyddi, a bellach mae wedi cael cynnig swydd tu ôl i'r bar yng Ngwesty'r Parkway yng Nghwmbrân.

Meddai Mr Hayes: "Mae fy ngorbryder a'm hanhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd wedi bod yn rhwystr i mi erioed rhag dod o hyd i waith, a phan ddechreuais ymgeisio am swyddi, nid oedd gennyf unrhyw brofiad o gyfweiliadau am swyddi. Nid oeddwn i'n gallu fforddio unrhyw beth taclus i'w wisgo ychwaith – es i i un cyfweiliad mewn siwt gwerth £10 o archfarchnad ac roedd hi'n amlwg nad oeddwn i wedi creu argraff dda ar y cyflogwyr. Mae'r tîm yn Pontydd i Waith wedi ymdrechu'n galed

iawn i'm helpu i gael swydd. Yn ogystal â sicrhau bod gennyf ddillad priodol, rhoi cymorth i mi â chymwysterau a sgiliau, maen nhw wedi fy helpu i ymdrin â materion personol hefyd. Erbyn hyn rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at ddechrau ar fy swydd newydd a symud ymlaen yn fy mywyd."

Meddai Jo Thomas, gweithiwr cymorth ar gyfer cyflogaeth yng Nghyngor Torfaen: "Mae Matthew wedi wynebu nifer o heriau yn ei fywyd sydd wedi'i atal rhag dod o hyd i waith. Mae'n hynod frwdfrydig ond roedd angen cymorth a chynngor ar sut i wisgo'n briodol a sut i ymddwyn mewn cyfweiliadau, yn ogystal â'r cymwysterau a hyfforddiant mwy ymarferol. Rwy'n falch iawn ei fod bellach wedi cael cynnig swydd a byddwn yn cadw mewn cysylltiad ag ef yn rheolaidd er mwyn parhau â'r cymorth drwy'r rhaglen Sgiliau Gweithio i Oedolion 2.

### Cefnogi pobl i gael gwaith drwy Gyllid Ewropeaidd

Mae pob prosiect a gymeradwywyd o dan Blaenoriaeth 1 yn mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol a chymhleth y mae unigolion yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith, gan ganolbwyntio ar y rhai hynny sydd bellaf i fwrdd o'r farchnad lafur.

Caiff pobl sy'n economaidd anweithgar neu bobl sy'n ddi-waith eu cefnogi i ddod o hyd i waith drwy'r prosiectau Cynhwysiant Gweithredol, Cymunedau am Waith, Pontydd i Waith 2 a Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth SOVA (ACE).

Mae'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn cynnig cymorth penodol i rieni pan mai gofal plant yw'r prif rwystr rhag cael gwaith. Gellir helpu pobl a chanddynt gyflyrau iechyd hirdymor i ddod o hyd i waith a'u cynorthwyo i gadw eu swydd drwy brosiectau Cymru Iach ar Waith Llywodraeth Cymru.

Hefyd, mae'r prosiect ReACT III yn helpu'r rhai hynny y mae eu swyddi dan fgythiad o gael eu dileu neu'r rhai hynny y mae eu swyddi wedi'u dileu, i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag dod o hyd i swyddi newydd.

Os hoffech ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r prosiectau hyn, anfonwch e-bost atom ni yn [SEWalesRET@bridgend.gov.uk](mailto:SEWalesRET@bridgend.gov.uk)

### Cyllid ar gael ar gyfer prosiectau i helpu pobl i aros mewn gwaith

O dan gynlluniau ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae cyfleoedd yn bodoli i ddatblygu syniadau sy'n cefnogi pobl i aros mewn gwaith. Cymru Iach ar Waith (Gwasanaeth mewn Gwaith) yw'r prosiect cyntaf i ddefnyddio cyllid Blaenoriaeth 1 SO3 sydd â'r bwriad o leihau diweithdra neu gyfraddau absenoldeb ar gyfer unigolion cyflogedig.

Prosiect dan arweiniad Llywodraeth Cymru yw Cymru Iach ar Waith sy'n targedu'r rhai hynny sydd mewn perygl o ddod yn ddi-waith o ganlyniad i absenoldeb hirdymor oherwydd salwch. Mae'r darparu cymorth cofleidiol drwy'r Gwasanaeth Iechyd a Gwaith (HWS) sy'n atgyfeirio gweithwyr yn ystod y cyfnod cynnar o absenoldeb hirdymor oherwydd salwch i gael mynediad cyflym at ymyraethau sy'n canolbwyntio ar waith. Bydd hefyd yn cefnogi cyflogwyr a Meddygon Teulu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd a gwaith.



Mae gan WEFO ddiddordeb mewn clywed gan sefydliadau sy'n ceisio datblygu syniadau a fydd yn ategu gweithrediad Cymru lach ar Waith. Mae trafodaethau gyda WEFO wedi cadarnhau y byddai ceisiadau am gyllid o dan B1 SO3 yn ystyried cefnogi unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn nad oes ganddo ddigon o waith ac sy'n profi rhwystrau rhag cael cyflogaeth arall, ac nid dim ond y rhai hynny a chanddynt gyflwr iechyd. Hefyd, byddai WEFO yn hapus i ystyried prosiectau lleol ar raddfa fach. Byddai angen i unrhyw brosiect a fydd yn gwneud cais, gyfrannu at yr allbynnau ar gyfer y rhan hon o'r rhaglen:

- Unigolion cyflogedig gan gynnwys rhai hunangyflogedig a chanddynt anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- Cyfranogwyr heb ddigon o waith sy'n wynebu rhwystrau rhag cael cyflogaeth lawn
- Nifer y mentrau micro, bach a chanolig eu maint a gefnogir
- Rhaglenni lechyd yn y gweithle

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol y De-ddwyrain yn croesawu ymholiadau mewn ymateb i'r cyfle hwn. Gellir dod o hyd i'n manylion cyswllt ar waelod y cylchlythyr hwn.

## #TrafodyCymoedd

Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Gweinidog Sgiliau wedi dod at ei gilydd, ynghyd â grŵp o ymgynghorwyr arbenigol, i ddatblygu dull ffres o gyflawni newid gwirioneddol yn y cymoedd. Bydd y gweithlu'n adeiladu ar waith a wnaethpwyd o'r blaen, mewn ffordd fwy cydlynol ac wedi'i thargedu a fydd yn bodloni anghenion cymunedau'r cymoedd. Mae'r gweithlu wrthi ar hyn o bryd yn cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws cymoedd de Cymru i geisio barn cymunedau lleol ar y blaenoriaethau ar gyfer eu hardaloedd lleol.

Os ydych chi'n dymuno #TrafodyCymoedd dewch i gwrdd â'r gweithlu yn eu cyfarfodydd nesaf:

6pm	27 Mawrth	The D.O.V.E Workshop ym Manwen, Castell-nedd
6pm	8 Mai	Neuadd y Dref, Maesteg
6pm	10 Mai	Institute, Glynebwy
6pm	25 Mai	Coleg y Cymoedd, Campws y Rhondda

Os hoffech chi gymryd rhan yn y cyfarfod nesaf, [cofrestrwch](#) neu [anfonwch e-bost](#) i #TrafodyCymoedd. Fel arall, postiwch eich barn a'ch sylwadau ar [facebook.com/talkvalleys](https://www.facebook.com/talkvalleys).

I gael rhagor o wybodaeth am aelodaeth a blaenoriaethau'r gweithlu, ewch i – [gwefan LIC](#)

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, wedi bod yn cwrdd â rhanddeiliaid i drafod dyfodol cyllid datblygu economaidd rhanbarthol, yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – [Diogelu Dyfodol Cymru](#). Mae'r papur yn darparu cynllun cynhwysfawr a chredadwy ar gyfer y trafodaethau gyda'n partneriaid yn Ewrop ynghylch ymadawiad y DU o'r UE ac mae'n ailddatgan galwadau am gyllid newydd o ffynonellau'r DU ar ôl 2020 i helpu Cymru i fynd i'r afael â heriau hirdymor.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid hefyd yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth yn rhan o'i [Ymchwiliad i Bolisi Rhanbarthol – Beth Nesaf i Gymru?](#) (20 Mawrth) gan ystyried dyfodol polisi datblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru.

Mae Cymru yn gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni'r rhaglenni 2014-2020, ar ôl buddsoddi ychydig dros £1.3 biliwn (64%) o ddyraniad Cronfeydd Strwythurol yr UE gwerth £2 biliwn, sy'n golygu cyfanswm buddsoddiad gwerth £2.5 biliwn.

Mae Trysorlys y DU wedi rhoi gwarant oes llawn ar gyfer pob prosiect strwythurol a buddsoddi a gymeradwyir cyn i'r DU adael yr UE.

## Cysylltu'r gwaith o gyflwyno ESF â pholisi sy'n datblygu

Ar 14 Mawrth, hwylusodd Tîm Ymgysyllu Rhanbarthol y De-ddwyrain weithdy i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Cyflogadwyedd i Gymru dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Nod y cynllun Cyflogadwyedd yw cynnal cyfradd isel o ddiweithdra, lleihau lefelau o anweithgarwch economaidd a lleihau cyfradd y bobl sy'n gadael gwaith, gan gydnabod y broblem gynyddol o dlodi mewn gwaith. Y nod yw cyflawni hyn drwy gynyddu cyflogaeth, gwella safonau byw, lleihau bylchau o ran sgiliau a llai o amrywiaeth ar draws Cymru.

Yn bresennol yn y gweithdy roedd cynrychiolwyr o SHELL a phrosiectau ESF a gyflwynir ar draws rhanbarth de-ddwyrain Cymru. Roedd yn llwyfan a groesawyd er mwyn trafod y cynlluniau ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r swyddogion sy'n datblygu'r rhaglen. Mae'r tîm yn ystyried rhagor o gyfleoedd ymgysylltu a bydd yn sicrhau bod aelodau'r rhwydwaith yn cael gwybod amdanynt.

De-ddwyrain i gysylltu â thîm y cronfeydd ([gde.pdg@wales.gsi.gov.uk](mailto:gde.pdg@wales.gsi.gov.uk)) cyn gynted â phosibl er mwyn dechrau trafodaethau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [wefan Llywodraeth Cymru](#).

## Digwyddiadau sydd ar ddod

- Cynhelir cyfarfod Panel Prawfesur ESI Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ar 27 Ebrill
- Mae Diwrnod Ewrop ar 9 Mai
- Cynhelir y cyfarfod Blaenoriaeth 2 ESF nesaf ar 11 Mai
- Cynhelir y cyfarfod Blaenoriaeth 1 ESF nesaf ar 22 Mai
- Cynhelir cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar 9 Mehefin
- Cynhelir y cyfarfod Blaenoriaeth 3 ESF nesaf ar 4 Gorffennaf

**Cysylltwch â ni:** Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru  
01656 815327  
[SEWalesRET@bridgend.gov.uk](mailto:SEWalesRET@bridgend.gov.uk)